PWYLLGOR SAFONAU A MOESEG

DYDD MERCHER, 22 TACHWEDD 2017

| | |
|---|---|
| Yn bresenol: | Aelodau Annibynnol: Richard Tebboth (Cadeirydd)<br>Hollie Edwards-Davies, James Downe, Hugh Thomas |
| | Y Cynghorwyr: Cunnah, Sandrey, Williams, Hollie Edwards-Davies, James Downe, Hugh Thomas a/ac Thomas |
| | Cynghorydd Cymuned: Stuart Thomas |

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am Absenoldeb gan Lizz Roe.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd Huw Thomas fuddiant personol yn eitem Agenda 9 (y Cynllun Gwaith) ac yntau'n Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

Datganodd y Cynghorydd Cunnah fuddiant personol yn eitem Agenda 9 (y Cynllun Gwaith) ac yntau'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio.

Datganodd y Cynghorydd Sandrey fuddiant personol yn Eitem 6 (Anrhegion a Lletygarwch) gan ei bod hi wedi'i nodi ar y gofrestr.

3 : COFNODION A MATERION YN CODI

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Medi 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

Materion yn codi

Gyda chyfeiriad at yr Arolwg Gadael Aelodau a'r sylw yn y cyfryngau a gafodd, cynghorwyd Aelodau bod Pennaeth Llywodraethu a'r Gyfraith wedi cwrdd â Phennaeth Cyfathrebu. Nodwyd y byddai Arolwg arall yn mynd rhagddo'n gofyn am brofiadau ers yr etholiad. Pan fydd canlyniadau'r arolwg hwn yn ôl, rhaid i'r tîm Cyfathrebu fod yn barod ar gyfer diddordeb gan y wasg.

Gan gyfeirio at Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a Moeseg, nododd y Cadeirydd ei fod wedi ysgogi trafodaeth fywiog yng Nghyfarfod Llawn y Cyngor yn enwedig pryderon a godwyd am ymddygiad mewn cyfarfodydd y Cyngor a chanlyniadau'r arolwg am fwlio. Pwysleisiodd y Swyddog Monitro y gwahaniaeth pwysig rhwng polisïau ymosodol (a oedd yn rhan briodol o rôl Aelod) ac ymosodiadau personol ar unigolion.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod ymddygiad mewn cyfarfodydd llawn y Cyngor wedi gwella'n ddiweddar a bod mwy o barch i'r Cadeirydd a rhwng cynghorwyr, a llai o ymddygiad afreolus. Nodwyd, fodd bynnag, y byddai cyfarfod Cyllideb y Cyngor yn brawf arall o ymddygiad.

## 4 : CROESAWU AELOD CYNGOR CYMUNED NEWYDD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Cymunedol Stuart Thomas i'r Pwyllgor am y tro cyntaf.

Cynghorodd y Swyddog Monitro fod angen trefnu sesiwn sefydlu ar gyfer aelodau newydd. Byddai honno hefyd yn agored i bob aelod arall o'r pwyllgor, a byddai hynny'n cynnwys sesiwn fyr ar y Cod Ymddygiad.

Tybiwyd bod hyn yn ddefnyddiol ar gyfer aelodau newydd i gwrdd a thrafod gydag Aelodau Main Cefn sy'n deall rôl cynghorydd a'r pwysau sy'n gallu dod gan etholwyr.

Roedd Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol cynnwys hefyd rôl Aelod ar y Pwyllgor a rhoi enghreifftiau o'r gwahanol faterion yr oedd y Pwyllgor wedi ymdrin â nhw.

Ar ben hynny, byddai'n ddefnyddiol i Aelodau ymgyfarwyddo â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a mynd i Gyfarfodydd Pwyllgor eraill a'r Cyfarfod Llawn, neu i weld gweddarllediadau o gyfarfodydd.

## 5 : SWYDDOGAETHAU MEWN PERTHYNAS Â CHYNGHORAU CYMUNED

Cynghorwyd Aelodau bod gan y Pwyllgor Safonau a Moeseg a'r Swyddog Monitro yn unol â statud rôl o ran Cynghorau Cymuned a Chwynion.  Roedd y Pwyllgor wedi siarad yn flaenorol am beidio â chanolbwyntio ar Gynghorwyr Cymuned fel Cynghorwyr ac roedd hon yn adeg dda i ailgyfeirio gwaith ac ymdrechion y Pwyllgor ar adeiladu perthnasau gyda Chynghorau Cymuned.

Amlinellodd yr Adroddiad syniadau ac awgrymiadau y gellid eu cyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Amlinellodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith yr awgrymiadau yn yr adroddiad fel a ganlyn:

Cynghorodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith Aelodau ei bod wedi ysgrifennu at bob un o Glercod y Cynghorau Cymunedol i ofyn am gyfarfodydd i drafod unrhyw bryderon a oedd ganddyn nhw; roedd y rhain wrthi'n cael eu trefnu.

Gellid hefyd anfon y Briff Aelodau a anfonwyd at Gynghorwyr Caerdydd at Gynghorwyr Cymuned a gellid ei addasu er mwyn iddo gynnwys pethau o ddiddordeb iddyn nhw.

Gellid anfon gwahoddiadau at Glercod/Gadeiryddion Cynghorau Cymuned i fynd i Bwyllgor Safonau a Moeseg a hefyd gallai Aelodau Safonau a Moeseg fynd i gyfarfodydd Cyngor Cymuned.

Gallai Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau a Moeseg gynnwys mwy am Gynghorau Cymuned.

Gallai cynrychiolwyr Cynghorau Cymuned gwrdd i drafod unrhyw broblemau.

Roedd Aelodau o'r farn bod hwn yn adroddiad defnyddiol iawn ac roedden nhw eisiau nodi na fydden nhw eisiau dyblygu unrhyw waith gan Un Llais Cymru.  Cynghorodd y

Cadeirydd fod Un Llais Cymru wedi nodi’n flaenorol fod angen cryfhau’r berthynas rhwng y Cynghorau Cymuned.

Nododd Aelodau'r heriau sy’n codi o’r ffaith nad yw Caerdydd gyfan wedi’i chynnwys gan y chwe chyngor Cymuned.

Cyflwynodd y Cynghorydd Cymuned Stuart Thomas holiadur i’r Pwyllgor a awgrymodd fod hwn yn cael ei anfon at bob Clerc Cyngor Cymuned fel rhestr wirio o'r mesurau i'w rhoi ar waith. Awgrymodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith y gallai’r holiadur gael ei gyflwyno yn y cyfarfodydd a oedd yn cael eu trefnu a’u llenwi yn y fan a’r lle gan y byddai hyn yn fodd i gynnig mwy o gymorth.

Trafododd Aelodau’r Siarter Cynghorau Cymuned a nodon nhw y bu cyfarfod ar 21 Hydref 2017, ac y bu 5 o 6 o'r Cynghorau Cymuned yn bresennol. Nododd Aelodau fod angen cytuno ar Siarter Ddiwygiedig, cytuno iddi, a'i rhoi ar waith. Nodwyd bod angen cyfathrebu gwell gyda Chynghorau Cymuned, rhaid chwalu rhwystrau, a rhaid rhoi stop ar yr agwedd Nhw a Ni.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad ar Brotocol Penderfynu Lleol Un Llais Cymru. Eglurodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a’r Gyfraith ei bod ar ddeall bod y protocol wedi'i ddechrau gan yr Ombwdsmon gan eu bod yn cael llawer o gwynion lefel isel. Anogwyd clercod i geisio datrys problemau’n lleol. Parhaodd rhai pryderon o ran p’un a oes gan rai Clercod y sgiliau i wneud hynny. Roedd hyn yn un o’r problemau y gellid eu trafod adeg y cyfarfod â Chyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith. Nododd y Cadeirydd fod hyn hefyd yn anodd os yw’r Clerc ynghlwm wrth y gŵyn, ac y gallai Safonau a Moeseg roi cefnogaeth yn hytrach na bod y gŵyn yn mynd yn syth at yr Ombwdsmon.

Cyfeiriodd Aelodau at ddefnydd adnoddau yn yr adroddiad ac roedden nhw o’r farn ei bod yn bwysig bod unrhyw addewidion a wneud yn cael eu cadw, gan nodi bod ond hyn a hyn o adnoddau. Pwysleisiodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a’r Gyfraith ei bod yn hyderus bod y Pwyllgor yn gallu cyflawni’r hyn sydd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: cytuno

i. y dylai’r Swyddog Monitro drafod â’r Clercod unrhyw anghenion pellach o ran hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn dilyn yr hyfforddiant a oedd wedi'i gyflawni eisoes;

ii. y dylai’r Swyddog Monitro gynnig cwrdd yn flynyddol â’r Clercod i drafod unrhyw bryderon sy'n gyffredin rhyngddynt;

iii. y dylai pob Briff Aelodau gael ei anfon at Gynghorwyr Cymunedol Caerdydd (drwy eu clercod) ac y dylai cynnwys y Briffiau gynnwys cyfeiriad at y Cynghorwyr Cymuned ac unrhyw faterion sydd o bosibl o ddiddordeb arbennig iddyn nhw.

iv. y dylai’r Swyddog Monitro wirio a yw Cynghorau Cymuned wedi mabwysiadu Protocol Datrysiad Lleol model Un Llais Cymru a chynnig unrhyw cyngor, hyfforddiant a chymorth sydd eu hangen ar Glercod a Chynghorwyr Cymuned o ran rhoi'r protocol ar waith;

v. y caiff aelodau'r Pwyllgor Safonau a Moeseg eu hannog i fynd i gyfarfod Cyngor Cymuned er mwyn gwylio'r drafodaeth ac unrhyw broblemau o ran ymddygiad aelodau, ymgyfarwyddo â gwaith Cyngor Cymuned, a chydi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor Safonau a Moeseg a'i gylch gwaith.

vi. Dylid ymestyn amserlen cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer eu gwylio er mwyn iddyn nhw gynnwys Cynghorau Cymuned, i hwyluso hynny; ac

vii. y dylai Adroddiad Blynyddol y Cyngor gael ei anfon at y Cynghorau Cymuned er gwybodaeth iddyn nhw ac mwyn cynnig cyfle i wneud sylwadau.

6 : COFRESTRU RHODDION A LLETYGARWCH WEDI DERBYN GAN AELODAU

Cafodd Aelodau adroddiad a nododd yr anrhegion a lletygarwch a gafodd Aelodau, sydd wedi'u cofrestru'n unol â'r rheolau dan God Ymddygiad yr Aelodau.

Mae'r Cod Ymddygiad Aelodau (paragraff 17) yn gofyn i Aelodau gofrestru unrhyw anrhegion, lletygarwch neu fuddion eraill a gafwyd pan fo gwerth yr eitem neu'r buddion yn fwy na throthwy y mae'r Cyngor yn ei bennu o bryd i'w gilydd.

£25 yw trothwy'r Cyngor ar gyfer cofrestru anrhegion a lletygarwch a geir gan Aelodau wedi'i osod ar sail argymhellion y Pwyllgor (ym mis Hydref 2007 ac yn unol â'r drothwy a osodwyd ar bob awdurdod lleol yn Lloegr gan y Bwrdd Safonau ar gyfer Lloegr).

Gofynnodd Aelodau a oedd darpariaeth yn y polisi i gydnabod a yw Aelodau'n cael rhoddion rheolaidd o dan £25 neu roddion rheolaidd gan yr un bobl. Cynghorwyd Aelodau y dylai'r rhain gael eu datgelu fel yr arfer ond os cynigir rhoddion i Aelodau'n rheolaidd gan yr un bobl, dylid eu gwrthod.

Roedd Aelodau o'r farn y gellid trefnu'r gofrestru yn ôl enw er cyfleuster; dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith fod hyn yn rhywbeth y gellid ei ystyried ond ni fyddai hi eisiau ei newid yng nghanol y flwyddyn.

Gofynnodd Aelodau eto am gael tynnu rhoddion a lletygarwch i'r Arglwydd Faer a'r Dirprwy Arglwydd Faer o'r rhestr o ystyried y dylen nhw fod ar restr wahanol i wneud y ddwy restr yn haws eu trafod. Cynghorwyd Aelodau y byddai swyddogion yn ystyried a allai rhestrau gael eu rhoi ar wahân.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad ar p'un a oedd y Gofrestr ar gael ar-lein. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod.

Awgrymwyd bod uwch swyddogion fel y sawl sy'n gwneud penderfyniadau, ac sy'n cael rhoddion a lletygarwch, fod ar restr gyhoeddus a fod yn atebol i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg. Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi trafod hyn yn flaenorol ac roedden nhw'n fodlon bod y ffurflenni'n cael eu llenwi a'u cadw. Nodwyd y byddai unrhyw newid mewn Polisi yn golygu ymgynghori â'r Undebau Masnach. Gofynnodd am eglurder ar beth y mae'r Polisi'n ei nodi a ph'un a wahaniaethir rhwng is ac uwch swyddogion. Dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith fod archwiliadau yn digwydd ond byddai'n gwirio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor ac phe bai'n briodol, byddai'n dod ag adroddiad ar y mater i gyfarfod yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelod a oedd unrhyw gydberthynas rhwng Buddiant Personol a Buddion a rhoddodd enghraifft o’r Pwyllgor Cynllunio.  Dywedodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r gyfraith y byddai angen gofyn llawer o gwestiynau i daflu goleuni ar yr union gyd-destun. Sicrhaodd Aelodau fod swyddogion yn ofalus iawn o gwmpas y Pwyllgor Cynllunio’ esboniodd y byddai swyddogion yn cynghori ar amgylchiadau penodol ond ni allai gynnig ‘cyngor damcaniaethol'.

Codwyd cwestiynau am gofrestriadau ar y gofrestr o ran Bws Caerdydd.

Datganodd y Cynghorydd Sandrey fuddiant nad oedd yn rhagfarnu a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth ar y mater hwn.

Nododd Aelodau fod y gofrestr yn cynnwys nifer o gofrestriadau ar gyfer cardiau teithio rhad ac am ddim ar y bws a gafwyd gan nifer o Aelodau yn rhinwedd y ffaith eu bod yn Gyfarwyddwyr Anweithredol ar Bws Caerdydd a enwebwyd gan y Cyngor. Roedden nhw’n pryderu y gellid tybio bod hyn yn annheg gan fod yn rhaid i Aelodau eraill ddatgan yn gyhoeddus unrhyw geisiadau am filltiroedd a deithiwyd, tocynnau trên ac ati.

Roedd Aelodau o’r farn bod angen eglurder ynghylch gwerth, diben a chwmpas y cerdyn teithio ar y bws, a sut y cafodd ei ddefnyddio ym mhob achos h.y. gwirio gwasanaethau, llwybrau ac ati, yn hytrach nag ar gyfer defnydd teithio personol.

Tybiwyd ei bod yn briodol ysgrifennu at yr Aelodau a oedd yn pryderu er mwyn rhoi eglurder ar y mater.

PENDERFYNWYD:

i. Nodi’r wybodaeth a roddwyd yn **Atodiad A** am gofrestru lletygarwch, rhoddion a buddion eraill i’r Aelodau yn ystod y cyfnod o 1 Hydref 2016 a 30 Medi 2017.

ii. Ysgrifennu at bob Aelod sy’n Gyfarwyddwr Anweithredol ar Bws Caerdydd gyda chopi i Gadeirydd y Bwrdd, i geisio eglurder ar natur a hyd a lled defnydd a gwerth ariannol y budd o ddefnyddio cerdyn teithio ar y bws am ddim.

7 : CWYNION COD YMDDYGIAD AELODAU – CHWARTER 2, 2017/18

Cynghorwyd Aelodau mai un gŵyn yn unig a gafwyd y chwarter hwn a’i fod yn galonogol iawn gweld bod ymddygiad wedi gwella a bod cwynion wedi lleihau’n sylweddol.

Yn hanesyddol, bu mwy o gwynion ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn.  Cynghorodd y Cadeirydd nad oedd yn cofio chwarter pan fu cyn lleied o gwynion. Roedd hefyd wedi sylwi ar welliant mewn ymddygiad yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor ers yr etholiad.

O ran y gwyn a gafwyd, gofynnodd Aelodau a wnaed y gŵyn gan aelod o’r cyhoedd, ac a oedd y Cynghorydd dan sylw’n ymwybodol o'r gŵyn.  Cynghorodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a’r Gyfraith y byddai’r Cynghorydd fel arfer bob amser yn cael gwybod am y gŵyn ac yn cael amser i ymateb; ar yr achlysur hwn roedd y Cynghorydd eisoes yn ymwybodol gan y bu'r heddlu ynghlwm wrthi. Nid oedd yr achwynydd yn fodlon ar hyd yr amser a gymerwyd gan yr Heddlu ac wedyn aeth â'r gŵyn gerbron y Swyddog Monitro. Nododd y Pwyllgor fod yr Heddlu wedi cynnal ymchwiliad trylwyr ond ni ddaethon nhw o

hyd i unrhyw dystiolaeth i brofi'r cyhuddiadau ac felly caeon nhw'r achos. Ni thybiwyd bod angen gwneud dim pellach nac y byddai hynny'n briodol.

PENDERFYNWYD: Nodi'r adroddiad.

8 : EITHRIADAU BUDDIANT NIWEIDIOL A PHERSONOL

Cynghorwyd aelodau bod cylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau a Moeseg yn cynnwys awdurdod i'r Pwyllgor:

*(f) i gymeradwyo neu wrthod ceisiadau i ddiystyru buddiannau Aelodau dan y Cod Ymddygiad Aelodau'n unol â'r darpariaethau statudol perthnasol.*

Caiff Aelod gyda buddiant personol sy'n rhagfarnu mewn mater wneud cais i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg am i'r buddiant gael ei ddiystyru gyda'r Ffurflen Gais Diystyru.

Mae'r gyfraith yn rhagnodi'r amgylchiadau y caiff y Pwyllgor gymeradwyo cais – Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu gollyngiadau) (Cymru) 2001.

Mae'r Pwyllgor wedi mabwysiadu Polisi Gollyngiadau sy'n nodi'r ffactorau i'w hystyried mewn perthynas â cheisiadau. Diwygiwyd y Polisi ddiwethaf ym mis Mehefin 2016 er mwyn iddo adlewyrchu mân newidiadau i'r darpariaethau statudol perthnasol (a ystyriwyd gan y Pwyllgor ym mis Mawrth 2016).

Argymhellwyd nifer o newidiadau i'r Polisi. Diwygiwyd yr amserlen ar gyfer ceisiadau gan yn aml ni fydd yn ymarferol i aelod gyflwyno cais o leiaf 10 diwrnod cyn cyfarfod Pwyllgor Safonau a Moeseg, o gofio nad yw'r Pwyllgor ond yn cyfarfod 4 neu 5 gwaith y flwyddyn, ac ni fydd aelodau'n gwybod weithiau bod ganddyn nhw fuddiant personol sy'n rhagfarnu mewn mater hyd nes bod yr agenda a'r adroddiadau ar gyfer y cyfarfod yn cael eu cyhoeddi tri diwrnod gwaith llawn cyn cyfarfod. Awgrymwyd y dylai Aelodau gyflwyno cais cyn gynted â'u bod yn sylwi bod angen gollyngiad arnyn nhw

Trafododd Aelodau gydbwysedd gwleidyddol ac a gâi gollyngiad ei roi a allai newid y cydbwysedd a gofynnwyd a fyddai is-bwyllgor heb Aelodau etholedig yn gweithio'n well. Esboniodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith y byddai o leiaf hanner aelodaeth yr is-bwyllgor yn Aelodau Annibynnol yn unol â'r gyfraith felly gallai aelod etholedig gael ei bleidleisio i lawr. Ychwanegodd y byddai'n ddefnyddiol cael barnau Aelodau etholedig ar yr is-bwyllgor.

Gofynnodd Aelodau a ellid dirprwyo Gollyngiadau i'r Cadeirydd/Is-gadeirydd a chawson nhw wybod na ellid, rhaid ei ddirprwyo i Swyddog mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd/Is-gadeirydd.

Nodwyd mai prin iawn y byddai angen trefnu cyfarfod is-bwyllgor. Roedd rhai Aelodau'n teimlo y gallai'r Swyddog Monitro ddelio ag ef os felly. Cynghorwyd Aelodau y dylid sefydlu is-bwyllgor yn y lle cyntaf er tryloywder ac er mwyn cael barnau Aelodau Annibynnol ac Etholedig ac y dylai'r Swyddog Monitro ddelio â hwn pe na bai modd trefnu cyfarfod is-bwyllgor yn unig, a'r cais am ollyngiad yn un brys. Byddai'n bosibl dileu 'Brys' o'r argymhellion, er mwyn cynnig yr opsiwn hwn pe bai'n briodol ar y pryd.

Nododd Aelodau y câi unrhyw ollyngiadau eu hadrodd i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg.

Roedd y Cadeirydd o'r farn mai opsiwn yr is-bwyllgor fyddai'r arfer gorau.

PENDERFYNWYD:

i. cymeradwyo’r diwygiadau a gynigiwyd i’r Polisi Gollyngiadau (**Atodiad A**) a’r Ffurflen Gais (**Atodiad B**);

ii. cymeradwyo sefydlu Is-Bwyllgor Gollyngiadau a fydd yn cynnwys 2 Aelod Annibynnol (gan gynnwys y Cadeirydd neu’r Is-Gadeirydd) ac un Aelod etholedig (cyfarfodydd i'w trefnu gan y Swyddog Monitro ad hoc, pan fo angen);

iii. dirprwyo awdurdod i’r Is-Bwyllgor Gollyngiadau a sefydlwyd dan argymhelliad II uchod i ystyried a phenderfynu ar geisiadau gollyngiad sy’n dod i law; a

iv. yn achos ceisiadau gollyngiad pan nad yw’n bosibl trefnu Is-bwyllgor Gollyngiadau mewn pryd, awdurdodi'r Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â’r Cadeirydd (neu’r is-gadeirydd) i benderfynu ar y ceisiadau hynny ac i adrodd yn ôl i’r Pwyllgor ar gyfer gwybodaeth.

9 : CYNLLUN GWAITH 2017-18

Cynghorwyd Aelodau y gallai eitemau ychwanegol ddod i mewn yn ogystal â'r eitemau a amlinellir yn y cynllun. Os bydd hynny’n digwydd, caiff eitemau flaenoriaeth a chaiff adnoddau eu rhoi yn unol â hynny.

Cafodd Aelodau eu gwahodd i wneud sylwadau ac awgrymiadau ar y Cynllun Gwaith.

Nodwyd bod angen i'r eitem ar y Roddion a Lletygarwch Swyddogion fynd yn y cynllun gwaith.

Gan gyfeirio at Arsylwadau o Gyfarfodydd Pwyllgor, mynegodd Aelodau'r farn y dylai Cynghorau Cymuned gael eu ychwanegu at yr amserlen cyfarfodydd newydd.

Roedd Aelodau o’r farn y dylai Hyfforddiant barhau i fod yn flaenoriaeth uchel ar y cynllun i aros ar radar y Pwyllgorau. Esboniwyd bod blaenoriaeth isel wedi’i nodi iddo gan fod hyfforddiant eleni wedi’i gwblhau ac roedd yn gyfredol. Roedd Aelodau o’r farn y gallai fod yn ddefnyddiol cael ffigurau presenoldeb ar gyfer y cyrsiau hyfforddiant ac i wybod pwy nad yw wedi cwblhau’r hyfforddiant. Esboniwyd mai hyfforddiant Cod Ymddygiad a oedd yn berthnasol i’r Pwyllgor Safonau a Moeseg, a chynhaliwyd ambell sesiwn ar hyn a gellid ei gwblhau ar-lein. Cynghorodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith y gallai ddod â’r ffigurau hyn i’r cyfarfod nesaf. O ran gweddill yr hyfforddiant, mae ffigurau ar hyn yn mynd at y Chwipiaid bob mis.

Awgrymodd Aelodau y gellid rhannu hyfforddiant ac y gallai Hyfforddiant sefydlu ar gyfer Aelodau Newydd fod ar linell ar wahân a chael ei restru'n flaenoriaeth uchel.

Holodd Un Aelod ynghylch Canllawiau Cyfryngau Cymdeithasol, yn enwedig adran 4 a oedd yn ymwneud â’r gwahaniaeth rhwng defnydd fel dinesydd preifat ac fel Cynghorydd. Esboniodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a'r Gyfraith y byddai’r Cod Ymddygiad bob amser yn berthnasol i Aelodau pan fyddan nhw’n gweithredu fel Cynghorwyr, ond byddai rhai

dyletswyddau hefyd yn berthnasol i Aelodau a hwythau'n gweithredu'n breifat.   Cytunodd i roi’r mater ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf ar gyfer ei adolygu.

Trafododd Aelodau blaenoriaeth a sgoriau RAG, a nodwyd bod y sgôr flaenoriaeth yn seiliedig ar frys yn hytrach nag ar bwysigrwydd.  Awgrymodd Aelodau y gallai fod yn ddefnyddiol ychwanegu colofnau ar gyfer Statws/Wedi’i Gwblhau/Camau.

PENDERFYNWYD:

i. Dod â ffigurau presenoldeb mewn Hyfforddiant Cod Ymddygiad hanfodol i'r cyfarfod nesaf;

ii. Gwneud eitem er trafodaeth ar y Cyfryngau Cymdeithasol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

10 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau a Moeseg ar 28 Mawrth 2018.